**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun,Rhagfyr 12fed 2022 yng Nghanolfan Deunant**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Wil Evans, Emlyn Jones, Dafydd Myrddin, Nesta Roberts, Tim Rosa ac RJ Williams

**Yn y gadair: Cymerodd yr Is Gadeirydd, y Cyng Wil Evans, y gadair ar ddechrau'r cyfarfod cyn i'r Cadeirydd, y Cyng Wenda Williams ymuno gyda'r cyfarfod**

**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb:</u>** Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng Jaci Jones
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:</u>** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Dachwedd 2022</u>:** Derbyniwyd y cofnodio fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan yr Is Gadeirydd
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:
a)Mae'r gwaith o drwsio y ffos ger Bodffordd, Rhoshirwaun wedi dechrau.
b)Mae Cyngor Gwynedd wedi addo cysylltu gyda perchennog y tir rhwng y Fantol ac Eglwys Bodferin er mwyn gofyn iddo farbio yr eithin sydd yn tyfu i'r ffordd.
ii)Hyfforddiant Cynghorwyr: Derbyniwyd ymateb gan Wendy Patience o Unllais Cymru yn datgan ei bod yn chwilio am hyfforddwr a fyddai yn gallu cynnal y cwrs hyfforddiant. Bydd yn cysylltu yn ôl gyda'r Cyngor yn fuan.
iv)Meddygfa Rhydbach: Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng Gareth Williams yn adrodd ei fod wedi cael cyfarfod gyda rheolwr y feddygfa. Adroddodd fod y cyfarfod ar y cyfan yn un positif a'i fod yn bersonol yn derbyn llawer llai o gwynion am y feddygfa yn ddiweddar, ac yn teimlo fod y feddygfa mewn lle llawer gwell 'rwan nag oedd hi rhyw ddwy flynedd yn ôl. Ychwanegodd fod sialensau yn dal i barhau, ond mae'r sialensau hyn yn wynebu pob Meddygfa trwy'r wlad – nid yn unig Rhydbach.
Mae problemau wedi bod gyda y system ffôn yn ddiweddar ond mae camau wedi eu cymeryd i wella hyn ac mae y rheolwr yn awyddus i glywed am unrhyw gwyn sy'n dod i law a bod croeso i'r Cyngor ei ebostio.
Penderfynwyd y bydd rhaid cofnodi unrhyw gwyn a ddaw i law er mwyn cael tystiolaeth cyn anfon at reolwr y feddygfa. Diolchwyd i'r Cynghorydd Sir am gyfarfod gyda y rheolwr gan wyntyllu pryder y Cyngor ac am anfon adborth.
v)Arwydd Aberdaron: Mae Bleddyn Jones, y swyddog Ahne wedi archebu arwydd newydd.
vi)Clwb Ieuenctid: Derbyniwyd trawstoriad o gostau cynnal y Clwb Ieuenctid yng Nghanolfan Deunant gan Sion Bryn Roberts a datganodd ei bod yn bosibl mai dim ond dau oruchwyliwr fydd angen ei gyflogi.
Adroddodd aelodau o'r Cyngor fod 28 o bobl ifanc yn mynychu y clwb ar ddau achlysur yn ddiweddar ac nad oedd goruchwyliaeth ddigonnol ac o ganlyniad roedd y bobl ifanc allan ar yr iard ac yn y cytiau.
Penderfynwyd anfon at Mr Roberts yn mynegi pryder am hyn ac yn pwysleisio fod angen tri goruchwyliwr os oes cymaint yn mynychu y clwb er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ddigonol.
vii)Ymateb gan Gyngor Gwynedd ynghylch y bws diwethaf ar nos Sadwrn: Derbyniwyd adroddiad gan Gyngor Gwynedd ei bod yn anodd cael gyrrwyr i wneud y gwasanaethau hwyr a bod adolygiad o'r holl rwydwaith yn mynd i gael ei wneud yn 2023.
viii)Bwiau ar y traeth yn 2023: Derbyniwyd ymateb gan Barry Davies, y Swyddog Morwrol yn datgan y bydd y bwiau yn cael eu trafod mewn cyfarfod yn Ionawr/Chwefror 2023 a bydd yn hysbysu y Cyngor Cymuned o ddyddiad y cyfarfod er mwyn i aelodau fod yn bresennol.
ii)Materion yr Eglwys Newydd ac adroddiad iechyd a diogelwch y fynwent (cymerodd y Cyng Wenda Williams y gadair):
Mae sesiwn gyhoeddus wedi ei threfnu gan Caryl Lewis ar gyfer y 19eg o Ragfyr yng Nghanolfan Deunant lle bydd y gymuned yn cael gwahoddiad i fynychu a derbyn gwybodaeth am sefyllfa yr eglwys a rhoi adborth trwy holiadur ynghylch y defnydd yr hoffent

hwy ei weld o'r adeilad.
Mae pensaer o gwmni Donald Insall wedi ymweld â'r eglwys er mwyn diweddaru yr arolwg a wnaed gan y cwmni yn 2016.
Bydd cais mynegi diddordeb ar gyfer cyllid i adnewyddu yr adeilad yn cael ei gyflwyno i Cadw erbyn yr 22ain o Ragfyr.
Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng RJ Williams a W Evans yn dilyn archwiliad o'r fynwent ac adroddwyd fod y safle yn daclus iawn.
Nodwyd fod lle gwag ar ochr ddwyreiniol y fynwent (rhwng clawdd cae Bodernabwy a'r rhes gyntaf yn y rhan newydd) ac y dylid trafod gyda y torrwr beddauer mwyn gweld os oes lle ychanegol ar gyfer claddu yno.

**5) Gohebiaethau**

i)Hysbysfwrdd ym Mhentref Aberdaron: Derbyniwyd llythyr gan y Cyng Gareth Williams yn datgan pryder Cyswllt Twristiaeth Aberdaron am gyflwr yr hysbysfwrdd yn y pentref. Mae'r clerc eisioes wedi dechrau llenwi ffurflen gais Cronfa AHNE Llŷn ar gyfer hysbysfwrdd newydd i'r pentref ac i Rhiw, fe fydd yn ei chyflwyno yn fuan.
ii)Pecyn cymorth cyllid a llywodraethu Unllais Cymru: Er gwybodaeth
iii)Llythyr gan Lywodraeth Cymru ynghylch Adran 137: Er Gwybodaeth
iv)Cofnodion digwyddiad Ardal Ni: Er Gwybodaeth

**6) Cynllunio**

Cais C22/1056/30/CR: Ychwanegu 4 panel solar i'r 16 presennol ar do'r adeilad, ac uwchraddio'r 16 presennol, Tŷ Bach, Ynys Enlli -dim gwrthwynebiad
Cais C22/1097/30/HT: Hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer uwchraddio bwriedig yn ymwneud ag offer telathrebu, Mast Gyfathrebu, Mynydd Rhiw, Rhiw, Pwllheli, LL53 8AU - er gwybodaeth

**7)Ariannol**

**Taliadau**

Iwan Hughes: £195.53 (cyflog)
HMRC (Paye): £48.80
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
Cyngor Gwynedd: £2,000 (cyfraniad toiledau cyhoedus)
Iwan Hughes, cofrestru 10 claddedigaeth yn 2021 a 2022): £50
Iwan Hughes: £18.99 (stampiau ac inc)
Owen Vaughan Jones: £60 (biniau i'r lôn)
Caryl Lewis: £2,280 (rhan daliad astudiaeth dichonoldeb yr Eglwys Newydd)

**Derbyniadau**

G W Parry, Galltyberen: £140, Claddu llwch y diw. W Williams
GW Parry, Galltyberen: £165, Claddedigaeth y diw. Eira Hughes

**8) Materion ffyrdd a llwybrau**

i)Derbyniwyd cwyn gyffredinol am y gylchdaith graeanu yn yr ardal, mae nifer o lonydd bach y mae bysus ysgol yn eu defnyddio heb eu graeanu yn ystod y cyfnod oer diweddar.
ii)Mae dwr yn codi i'r lôn ym mhen lôn Fryndol, Y Rhiw.
iii)Mae angen gofyn i Iwan ap Trefor o Gyngor Gwynedd am ddiweddariad am y cynllun llwybr troed o Bro Hywyn i gyfeiriad yr ysgol.
iv)Mae angen gofyn am ddiweddariad am amserlen y cynllun i greu cartrefi i bobl leol yn hen Ysgol Llidiardau a Thŷ'r Ysgol Deunant.
v)Mae cyflwr y ffordd o groeslof Ffôr, Y Rhiw i Dŷ Croes Mawr yn ddrwg er fod gwaith llenwi tyllau wedi ei wneud yn ddiweddar. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd os oes bwriad i'w hail wynebu yn fuan.

**Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar y 9fed o Ionawr yn Neuadd Rhoshirwaun am 7.30y.h**